Cronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig:
Ewrop yn Buddsoddi mewn Ardaloedd Gwledig
European Agricultural Fund for Rural Development:
Europe Investing in Rural Areas

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.cymru.gov.uk

# Glastir

## Glastir Coetir
## GEOPDF Map - Llawlyfr Sut i Lenwi

## Cymunedau Gwledig Llywodraeth Cymru – Rhaglen Datblygu Gwledig 2014-2020



# Glastir Coetir GEOPDF

## Llawlyfr Sut i Lenwi

### Cynnwys: Tudalen:


**ADRAN 1 - Y feddalwedd sydd ei hangen arnoch (Adobe Reader) 2**

- Sut i lawrlwytho'r fersiwn ddiweddaraf o Adobe Reader o'r Rhyngrwyd 2

**ADRAN 2 – Llywio'r GeoPDF 3**

- Dechrau arni 3
- Dangos Crynoluniau Tudalenau 4
- Dangos/Cuddio'r Haenau 5

**ADRAN 3 – Llunio Safleuoedd Plannu / Ffensio 7**

- Gosod Priodweddau Mesur Arwynebedd a Hyd 8
- Llunio Safleuoedd Plannu 9
- Llunio Hyd Ffens 10
- Ychwanegu Nodiadau i'r Map 11
- Cadw Newidiadau 12

**ADRAN 4 - Anfon GeoPDF drwy RPW Ar-lein 13**

- Mewngofnodi i'ch Cyfrif RPW Ar-lein 13
- Anfon Neges 13

## ADRAN 1 - Y feddalwedd sydd ei hangen arnoch  (Adobe Reader)

### Sut i lawrlwytho'r fersiwn ddiweddaraf o'r Rhyngrwyd

Er mwyn marcio ac ysgrifennu nodiadau ar GeoPDF, bydd angen ichi osod y fersiwn ddiweddaraf o Adobe Reader. Gallwch lawrlwytho'r feddalwedd hon yn uniongyrchol o wefan Adobe, a hynny'n rhad ac am ddim.

Defnyddiwch y ddolen hon ar y rhyngrwyd:

https://get.adobe.com/uk/reader

Dilynwch y cyfarwyddiadau ar y sgrin i osod Adobe Reader ar eich cyfrifiadur.

*Sylwer*: Os ydych chi eisoes wedi gosod fersiwn hŷn o Adobe Reader ar eich cyfrifiadur, mae'n bosibl na fyddwch yn gallu ysgrifennu nodiadau ar y PDF. Bydd yn rhaid ichi osod y fersiwn ddiweddaraf er mwyn gwneud hynny.


Y fersiwn a ddefnyddiwyd I greu y llyfryn hwn oedd:

*Adobe Acrobat Reader DC (version 2019.010.20091)*

## ADRAN 2 - Llywio'r GeoPDF

### Dechrau arni

Pan fyddwch chi'n agor y GeoPDF ar gyfer cynllun Coetir Glastir am y tro cyntaf, byddwch yn gweld rhywbeth tebyg i'r isod – sydd yn dangos map o'r ardaloedd a gafodd eu datgan ar y Datganiad o Ddiddordeb Glastir Coetir. Mae holl haenau'r map wedi eu troi ymlaen yn rhagostydiedig felly mi fedr y arolwg gyntaf edrych braidd yn ddryslyd i ddechrau efo:




## Dangos Crynoluniau Tudalenau

I symud rhwng tudalennau gwahanol y ddogfen, gallwch ddefnyddio'r bar sgrolio arferol, neu os hoffech weld y GeoPDF yn ei gyfanrwydd, gallwch ddefnyddio'r ffenestr Crynoluniau (*Page Thumbnails*).

Cliciwch ar yr eicon ar ochr chwith y sgrin er mwyn gweld y Crynoluniau (*Page thumbnails*).

Bydd crynoluniau o bob tudalen i'w gweld bellach ar ochr chwith y sgrin. Cliciwch ar y dudalen berthnasol i fynd yn uniongyrchol i'r dudalen honno.




Cliciwch ar gryno-lun i fynd yn uniongyrchol i'r dudalen honno.


**Dangos/Cuddio’r Haenau**

Rhagosodwyd y dudalen fel bod pob haen o’r mapiau i’w gweld. Gallwch addasu’r haenau yr ydych yn eu gweld


I ddefnyddio’r teclyn sy’n caniatáu ichi weld yr haenau (*Layer viewer),* cliciwch ar yr eicon


Byddwch chi’n gweld yr offeryn (*Layer* viewer) ar ochr chwith y sgrin.

*Sylwer*: Mae gosodiadau haenau ar gael ar gyfer pob tudalen yn y GeoPDF, felly dylech wneud yn siŵr eich bod yn addasu’r set gywir..





Cliciwch i ehangu’r haenau wedi eu grwpio o’r cae yr ydych eisiau gweithio arno.

Toglwch yr eicon  i ddangos neu i guddio’r haenau sydd ar y map.




## ADRAN 3 - Llunio Safleuoedd Plannu / Ffensio


I lunio safleoedd plannu neu hyd ffens, cliciwch **Tools** ar y bar dewislenni, wedyn dewisiwch **Measure**.




Cliciwch **Measurement Tool** ar y **Measure Toolbar**. Bydd y blwch Snap Types/Measurement Types yn ymddangos.




Mae'n fuddiol i dad-dicio'r holl Snap Types, gan wnaiff hyn eich galluogi i lunio heb snapio i elfennau diangen o fewn y map.



## Gosod Priodweddau Mesur Arwynebedd a Hyd


Cyn creu safleoedd plannu neu lunio hyd ffens, bydd angen i chi newid proiodweddau rhagosodedig Adobe PDF I ddangos Hectarau a Metrau. Unwaith yr ydych wedi eu gosod ni fydd angen eu hailosod eto.

Tra'n fodd mesuro, rhowch **glic dde** ar y map. Dewisiwch **Preferences** o'r naid-rhestr:





Yn y ffenestr Preferences, dewisiwch **Measuring (Geo)** o'r ochr chwith.

Gosodwch yr opsiwn '*Use default distance unit'* I **Meters** a'r '*Use Default Area Unit'* i **Hectares**. Gwnewch yn siwr fod y ddau opsiwn wedi eu ticio.



## Llunio Safleoedd Plannu (aml yn adnabyddus fel polygons)

1. Gosodwch y Measurement Type i **AREA TOOL**




2. Nawr fe fedrwch gychwyn llunio'r safle plannu. Mae'r clic gyntaf ar eich llygoden yn gosod y nod gychwynnol, ac fe fydd pob clic dilynol yn gosod pwyntiau nod pellach o amgylch eich safle dymunol.  Wrth agosáu at eich nod cychwynnol fe fydd pwyntydd eich llygoden yn newid i ddangos diwedd eich polygon plannu. Unwaith caiff ei gwblhau, fe fydd maint arwynebedd y polygon yn cael ei ddangos.





3. Rowch **glic dde** ar y polygon gorffenedig, wedyn dewisiwch **Properties**. Addaswch fel a ddilynir:

   (a) Gosodwch Set Style i plain line


   (b) Gosodwch thickness i 2pt

   (c) Gosodwch Colour i Red

   (d) Gosodwch Fill Colour i Light Green





4. Mi fedr addasu arwynebedd y polygon os oes angen. Cliciwch y polygon ac fe ymddengys y nodau a benodir ym mhwynt 1. Fe fedrwch nawr ddewis pob nod ac addasu fel yn briodol.



a

## Llunio Hyd Ffens

1. Gosodwch y Measurement type i **PERIMETER TOOL**




2. Nawr fe fedrwch gychwyn llunio'r hyd ffens. Mae'r clic gyntaf ar eich llygoden yn gosod y nod gychwynnol, ac fe fydd pob clic dilynol yn gosod pwyntiau nod pellach o amgylch eich safle dymunol. Pan fydd hyd eich ffens wedi ei gwblhau, dwbl-gliciwch i orffen y ffens. Fe fydd maint hyd eich ffens yn cael ei dangos.





3. Rowch **glic dde** ar y linell orffenedig, wedyn dewisiwch **Properties**. Addaswch fel a ddilynir:

   (a) Gosodwch line **Start** a **End** fel *None*

   (b) Gosodwch **Style** i Dashed

   (c) Gosodwch **Thickness** i 3pt


   (d) Gosodwch **Colour** i Green





4. Mi fedr addasu llinell y ffens os oes angen. Cliciwch y linell ac fe ymddengys y nodau a a benodir ym mhwynt 1. Fe fedrwch nawr ddewis pob nod ac addasu fel yn briodol.

## Ychwanegu Nodiadau i'r Map

1. Cliciwch ar y ddewislen Tools, wedyn dewisiwch yr opsiwn **Comment**.




2. Cliciwch y botwm cwymplen 'Drawing Tools'  a wedyn dewisiwch yr 'Add Text Callout'. Nawr fe fedrwch lunio blwch nodyn ar y sgrin, yna cario ymlaen i ychwanegu destyn.




3. Ellir symyd/ailfeintio'r blwch text callout. Golygwch y testyn drwy ddwbl-glicio ar y blwch.



**Cadw newidiadau**


Ar ôl ichi orffen marcio'r GeoPDF, ewch i'r ddewislen ar y bar offer a chliciwch **File** > **Save As** ar bar offer y ddewislen. Mi gewch savio y ffeil ar yriant called eich cyfrifiadur mewn man o eich dewis, ond gwnewch nodyn o'r man cadw at nes ymlaen gan fydd angen i chi lan-lwytho'r GeoPDF orffenedig i RPW Ar-lein.

*Sylwer:* Mae'n bosibl y byddwch am newid enw ffeil y GeoPDF yr ydych wedi'i olygu er mwyn osgoi trosysgrifo'r ddogfen wreiddiol os yn safio i'r un man ar yriant called eich cyfrifiadur.

## ADRAN 4 – GeoPDF – Anfon i RPW Ar-lein

### Mewngofnodwch i'ch cyfrif RPW Ar-lein

Mewngofnodwch i'ch cyfrif RPW Ar-lein – rhowch eich Rhif Adnabod a'ch Cyfrinair yn y blychau a chliciwch ar y botwm **Mewngofnodi**.




### Anfon y Neges

Ar ôl ichi fewngofnodi, ewch i'r tab 'Negeseuon', yna cliciwch




Llenwch y blychau yn ôl y gofyn gan roi teitl priodol i'r neges, ac yna ychwanegwch eich GeoPDF fel atodiad.

Cliciwch 'Creu' ar ôl gorffen.

